Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr - Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 3 Gorffennaf 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

221(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau amserol

4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

5 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – Trydydd adroddiad ar ddeg i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

(15 munud)

NDM8629 Vikki Howells (Cwm Cynon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad — Trydydd Adroddiad ar Ddeg i'r Chweched Senedd a osodwyd gerbron y Senedd ar 26 Mehefin 2024 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9.

2. Yn cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad.

6 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Hyfforddiant deintyddol

(60 munud)

NDM8600 Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi'r pryderon a gaiff eu codi'n rheolaidd gan Aelodau o'r Senedd am ddiffyg argaeledd gwasanaethau deintyddol y GIG.

2. Yn nodi'r rhwystrau a ddogfennir a'r argymhellion a wneir ar gyfer y ffordd ymlaen yn adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ddeintyddiaeth.

3. Yn nodi'r heriau penodol yn ymwneud gyda chynllunio, hyfforddi, recriwtio a chadw deintyddion yng Nghymru.

4. Yn nodi cyhoeddi y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Deintyddol gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru ym Mai 2024 a'r cyfeiriadau a wneir yn y cynllun hwnnw, yn benodol:

a) fod Cymru yn fewnforiwr net o ddeintyddion;

b) fod Cymru yn dibynnu ar ysgolion deintyddol y tu hwnt i Gymru i gynhyrchu digon o ddeintyddion i'w recriwtio i'r gweithlu; ac

c) mai'r Deyrnas Unedig sydd â'r nifer isaf o ddeintyddion fesul person o'i gymharu ag aelodau mawr eraill y G7 yn Ewrop.

5. Yn nodi fod nifer y lleoedd yn yr unig ysgol ddeintyddol yng Nghymru wedi'u cyfyngu bob blwyddyn.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y lleoedd hyfforddi prifysgol ar gyfer deintyddion yng Nghymru.

Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Deintyddol

Cyd-gyflwynwyr

Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cefnogwyr

Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru)

Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Sam Rowlands (Gogledd Cymru)

7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith - Adroddiad ar wasanaethau rheilffyrdd a pherfformiad Trafnidiaeth Cymru 2023-24

(60 munud)

NDM8628 Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 'Adroddiad ar wasanaethau rheilffyrdd a pherfformiad Trafnidiaeth Cymru 2023-24', a osodwyd ar 3 Mai 2024.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mehefin 2024. Ymatebodd Trafnidiaeth Cymru ar 22 Mai a 17 Mehefin 2024.

8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Rhestrau aros y GIG

(60 munud)

NDM8630 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn dathlu gwaith caled ac ymroddiad y rhai sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru.

2. Yn cydnabod cynnig Llywodraeth y DU i helpu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â rhestrau aros y GIG.

3. Yn gresynu at y canlynol:

a) bod nifer yr achosion o aros dwy flynedd am driniaeth wedi cynyddu i 21,290 yng Nghymru, y tro cyntaf iddynt gynyddu mewn dwy flynedd, o'i gymharu â 275 yn Lloegr;

b) bod amseroedd aros canolrifol am driniaeth y GIG yn 22 wythnos yng Nghymru, o'i gymharu â 13.9 wythnos yn Lloegr;

c) bod nifer y llwybrau cleifion yng Nghymru wedi cynyddu eto i 775,031, sef y ffigur uchaf a gofnodwyd, tra bod rhestrau aros wedi gostwng dros y chwe mis diwethaf yn Lloegr; a.

d) nid yw 54.2 y cant o alwadau coch am ambiwlans yn cyrraedd o fewn wyth munud.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) dechrau dileu technolegau hen ffasiwn y GIG;

b) cyflwyno cynllun gweithlu sylweddol gydag ad-daliad ffioedd dysgu i weithwyr gofal iechyd sy'n aros yng Nghymru am bum mlynedd ar ôl eu hastudiaethau;

c) sicrhau bod y swm llawn o gyllid canlyniadol Barnett sy'n deillio o wariant Llywodraeth y DU ar y GIG ar gael ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru; a

d) gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddeall arfer gorau wrth dorri rhestrau aros y GIG.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Dileu'r popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi methiant y Prif Weinidog i gyflawni ei amcan ei hun o ddod â rhestrau aros i lawr yng Nghymru.

Yn gresynu yng Nghymru

a) bod nifer yr arosiadau dwy flynedd am driniaeth wedi cynyddu i 21,290;

b) bod arosiadau canolrifol 22 wythnos am driniaeth y GIG;

c) bod nifer y llwybrau cleifion wedi cynyddu eto i 775,031, y ffigur uchaf a gofnodwyd; a

d) nad yw ambiwlans yn cyrraedd o fewn wyth munud ar gyfer 54.2 y cant o alwadau ambiwlans coch.

Yn gresynu:

a) bod cynlluniau gwariant Plaid Geidwadol y DU a Phlaid Lafur y DU yn awgrymu toriadau mean termau real i feysydd heb eu clustnodi yng nghyllideb Cymru a fydd yn gwaethygu'r pwysau ar y GIG; a

b) bod Plaid Geidwadol y DU a Phlaid Lafur y DU yn agor y drws i ddarparwyr preifat elwa ar y GIG.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru:

a) i ddechrau dileu hen dechnolegau'r GIG;

b) i gyflwyno cynllun gweithlu sylweddol gydag ad-daliad ffioedd dysgu i weithwyr gofal iechyd sy'n aros yng Nghymru am bum mlynedd ar ôl eu hastudiaethau;

c) i ddiogelu'r GIG fel sefydliad cwbl gyhoeddus sydd am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen; a

d) i wneud cais ffurfiol i Lywodraeth nesaf y DU ddod â fformiwla annheg Barnett i ben i sicrhau cyllid teg i Gymru a fydd yn galluogi buddsoddi yng ngweithlu'r GIG a recriwtio 500 o feddygon teulu.

Yn galw ar Lywodraeth y DU i ddod â fformiwla annheg Barnett i ben, ac ariannu Cymru yn ôl yr angen, er mwyn buddsoddi'n briodol yn yr holl feysydd cyllideb yng Nghymru, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol.

Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.

Gwelliant 2 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu'r cyfan ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod:

a) bod arosiadau hir wedi lleihau 70 y cant ers y brig ym mis Mawrth 2022;

b) bod amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn cael eu cyfrifo mewn ffyrdd gwahanol ar draws y DU – yng Nghymru maent yn cynnwys amseroedd aros am therapïau a diagnosteg; ac

c) bod Cymru yn gwario 15 y cant yn fwy y pen ar iechyd a gofal cymdeithasol nag yn Lloegr a bod Llywodraeth Cymru, yn 2024-25, yn buddsoddi mwy na 4 y cant yn ychwanegol yn y GIG o gymharu hynny â llai nag 1 y cant yn Lloegr.

Yn croesawu buddsoddiad a chymorth parhaus Llywodraeth Cymru fel y gall GIG Cymru fanteisio ar y diweddaraf o ran meddyginiaethau, triniaethau a thechnolegau.

9 Cyfnod Pleidleisio

10 Dadl Fer

(30 munud)

NDM8626 Sioned Williams (Gorllewin De Cymru)

Diogelu'r croen: rôl ysgolion wrth atal canser y croen.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 9 Gorffennaf 2024

Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 26/06/2024 i'w hateb ar 03/07/2024

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Gareth Davies *Dyffryn Clwyd*

1 OQ61372 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am ddarpariaeth gofal iechyd cymunedol yn Sir Ddinbych?

Altaf Hussain *Gorllewin De Cymru*

2 OQ61371 **(e)**

Beth yw polisi Llywodraeth Cymru ar ddarparu bwydydd sydd wedi'u prosesu'n helaeth i gleifion yn ysbytai'r GIG?

Vikki Howells *Cwm Cynon*

3 OQ61362 **(e)**

Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i bobl yng Nghwm Cynon a gaiff eu heffeithio gan ganser yr ysgyfaint?

Heledd Fychan *Canol De Cymru*

4 OQ61390 **(e)**

A wnaiff Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar gynllun bwydo ar y fron Cymru gyfan?

Mike Hedges *Dwyrain Abertawe*

5 OQ61359 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarpariaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru?

Llyr Gruffydd *Gogledd Cymru*

6 OQ61377 **(w)**

A wnaiff yr Ysgrifenydd Cabinet ddatganiad ar gysondeb ariannu gofal o fewn y gyfundrefn cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru?

Laura Anne Jones *Dwyrain De Cymru*

7 OQ61363 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am wasanaethau brys yn Ysbyty'r Faenor?

Peter Fox *Mynwy*

8 OQ61389 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud o ddigonolrwydd y ddarpariaeth gwasanaeth yn ysbytai Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan?

Rhys ab Owen *Canol De Cymru*

9 OQ61357 **(e)**

Beth y mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn ei wneud i wella amseroedd ymateb ar gyfer galwadau coch?

Jack Sargeant *Alun a Glannau Dyfrdwy*

10 OQ61367 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwella mynediad at wasanaethau deintyddol yn Alun a Glannau Dyfrdwy?

Carolyn Thomas *Gogledd Cymru*

11 OQ61393 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi prosiectau cymunedol sy'n canolbwyntio ar wella iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc?

Mabon ap Gwynfor *Dwyfor Meirionnydd*

12 OQ61388 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad ar gyllid Gofal Iechyd Parhaus?

YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS YR ECONOMI, YNNI A'R GYMRAEG

Julie Morgan *Gogledd Caerdydd*

1 OQ61386 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu twf gwyddorau bywyd yng Nghymru?

Natasha Asghar *Dwyrain De Cymru*

2 OQ61366 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am ddyfodol Maes Awyr Caerdydd?

James Evans *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

3 OQ61376 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad ar drafodaethau gyda datblygwyr ffermydd gwynt ar raddfa fawr ym Mrycheiniog a Maesyfed?

Llyr Gruffydd *Gogledd Cymru*

4 OQ61378 **(w)**

Pa drafodaethau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi cael gyda chyflogwyr ac undebau llafur i hyrwyddo gwaith teg ac annog gwell amodau gwaith i weithwyr yng Ngogledd Cymru?

Joyce Watson *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OQ61375 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi cyflogeion i fod yn berchnogion ar fusnesau?

Laura Anne Jones *Dwyrain De Cymru*

6 OQ61370 **(e)**

Pa asesiad y mae yr Ysgrifennydd Cabinet wedi'i wneud o effaith rhyddhad ardrethi busnes ar yr economi?

Altaf Hussain *Gorllewin De Cymru*

7 OQ61379 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau nad yw prosiectau ynni adnewyddadwy yn cael effaith negyddol ar gymunedau cyfagos?

Mark Isherwood *Gogledd Cymru*

8 OQ61361 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi economi Gogledd Cymru?

Buffy Williams *Rhondda*

9 OQ61395 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i greu swyddi gwyrdd mewn etholaethau ôl-ddiwydiannol fel Rhondda?

Jack Sargeant *Alun a Glannau Dyfrdwy*

10 OQ61369 **(e)**

Pa drafodaethau y mae yr Ysgrifennydd Cabinet wedi'u cael gyda phartneriaid ynghylch sut y gallai dadfuddsoddi pensiwn y sector cyhoeddus fod o fudd i economi Cymru?

Gareth Davies *Dyffryn Clwyd*

11 OQ61387 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r gyfradd anweithgarwch economaidd gynyddol yn Sir Ddinbych?

Rhianon Passmore *Islwyn*

12 OQ61391 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gweithgarwch economaidd busnesau yn Islwyn?